Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru | For learners, for Wales

# Ieithoedd Rhyngwladol yn y Sector Cynradd
# Pecyn Cymorth Hunanwerthuso

Ar gyfer pob maes ffocws, dewiswch y gwerthusiad, o blith y rhestr isod, sy'n rhoi'r disgrifiad gorau o ieithoedd rhyngwladol yn eich ysgol. Nodwch unrhyw gryfderau allweddol a meysydd i'w gwella i ddangos tystiolaeth o'ch gwerthusiad. Wedyn, ystyriwch gamau gweithredu a fyddai'n eich cynorthwyo i symud ymlaen. Gallwch ddefnyddio'r camau gweithredu posibl yn y pecyn cymorth i helpu cefnogi eich cynllunio gwelliant.

| Gwerthusiad | Disgrifiwr |
|---|---|
| **Yn dod i'r amlwg** | Megis dechrau datblygu ydym ni. Mae arfer yn anghyson neu'n gyfyngedig, ac nid oes llawer o gynllunio strategol neu effaith eto. |
| **Yn datblygu** | Rydym wedi gwneud rhywfaint o gynnydd ac mae gennym ychydig o arferion effeithiol ar waith, ond nid ydynt wedi cael eu hymgorffori eto neu'n gyson. |
| **Cryf** | Rydym wedi gwneud cynnydd cryf ac mae'r ddarpariaeth yn hynod effeithiol, gyda systemau clir, monitro rheolaidd, ac effaith gadarnhaol ar ddisgyblion. |

### Arweinyddiaeth a Gweledigaeth

- I ba raddau y mae dysgu ieithoedd rhyngwladol yn flaenoriaeth strategol yn ein gweledigaeth a chynllunio gwelliant ysgol gyfan?

| | |
|---|---|
| **Yn dod i'r amlwg** | |
| **Yn datblygu** | |
| **Cryf** | |

Camau gweithredu posibl:
- *Adolygu blaenoriaethau gwella ysgol gyfan*
- *Pennu arweinydd enwebedig ar gyfer ieithoedd rhyngwladol*
- *Cynnwys ieithoedd rhyngwladol yn y strategaeth dysgu proffesiynol*

### Cynllunio'r Cwricwlwm

- Pa mor dda y caiff dysgu ieithoedd rhyngwladol ei ymgorffori o fewn ein cwricwlwm, ac a oes cyfuniad priodol o ddysgu trawsgwricwlaidd a sesiynau ieithoedd dynodedig?

| | |
|---|---|
| **Yn dod i'r amlwg** | |
| **Yn datblygu** | |
| **Cryf** | |

Camau gweithredu posibl:
- *Mapio cyfleoedd dysgu ieithoedd rhyngwladol ar draws meysydd dysgu a phrofiad*
- *Nodi amser yn y cwricwlwm ar gyfer sesiynau ieithoedd ar wahân*
- *Ymgorffori ieithoedd rhyngwladol yng nghynllunio ehangach ILlCh*

### Dilyniant a Pharhad

- A oes gennym ni gynllun clir a chynyddol ar gyfer ieithoedd rhyngwladol o gam cynnydd 2 i 3, ac a ydym ni'n cefnogi parhad i mewn i'r sector uwchradd?

| | |
|---|---|
| **Yn dod i'r amlwg** | |
| **Yn datblygu** | |
| **Cryf** | |

Camau gweithredu posibl:
- *Amlinellu'r hyn rydych chi am i ddisgyblion ei ddysgu ym mhob grŵp blwyddyn*
- *Datblygu cynllun cwricwlwm clwstwr*
- *Rhannu cynnydd disgyblion mewn ieithoedd rhyngwladol yn y cyfnod pontio*

**Ymgysylltu â Disgyblion**

- Pa mor frwdfrydig a hyderus yw disgyblion o ran defnyddio ieithoedd rhyngwladol a beth mae hyn yn ei ddweud wrthym am ansawdd ac effaith yr addysgu?

| | |
|---|---|
| **Yn dod i'r amlwg** | |
| **Yn datblygu** | |
| **Cryf** | |

Camau gweithredu posibl:
- *Cwblhau gweithgareddau gwrando ar lais y disgybl dysgwyr i gasglu barn*
- *Cynyddu profiadau dysgu dilys a difyr*
- *Sicrhau bod yr addysgu yn blaenoriaethu datblygu medrau llafaredd disgyblion*

**Hyder Staff**

- A yw athrawon yn teimlo'n hyderus a'u bod yn cael cefnogaeth i gyflwyno ieithoedd rhyngwladol, ac a ydynt wedi manteisio ar gyfleoedd dysgu proffesiynol perthnasol?

| | |
|---|---|
| **Yn dod i'r amlwg** | |
| **Yn datblygu** | |
| **Cryf** | |

Camau gweithredu posibl:
- *Cwblhau archwiliad o fedrau a lefelau hyder staff*
- *Nodi cyfleoedd dysgu proffesiynol perthnasol, a manteisio arnynt*
- *Gofyn am gymorth ychwanegol trwy wasanaethau gwella ysgolion*

**Ymwybyddiaeth Ddiwylliannol**

- Pa mor effeithiol ydym ni'n dathlu amrywiaeth ieithyddol a diwylliannol, a pha mor gynhwysol yw ein darpariaeth ar gyfer disgyblion sydd â gwahanol ieithoedd cartref?

| | |
|---|---|
| **Yn dod i'r amlwg** | |
| **Yn datblygu** | |
| **Cryf** | |

Camau gweithredu posibl:
- *Cynllunio digwyddiadau / gwasanaethau ysgol gyfan yn dathlu gwahanol ieithoedd, a chynnwys rhieni a gofalwyr, lle bo modd*
- *Cynnwys ieithoedd cartref mewn arddangosfeydd ac arferion ystafell ddosbarth*

**Dulliau addysgu**

- A ydym ni'n defnyddio ystod o strategaethau effeithiol a difyr i ddatblygu llafaredd a hyder disgyblion mewn ieithoedd rhyngwladol?

| | |
|---|---|
| **Yn dod i'r amlwg** | |
| **Yn datblygu** | |
| **Cryf** | |

Camau gweithredu posibl:
- *Canolbwyntio ar ddatblygu addysgeg ieithoedd effeithiol*
- *Hyrwyddo a rhannu arfer effeithiol, fel gemau, caneuon, drilio a thechnegau creu brawddegau*

## Asesu a Monitro

- Sut ydym ni'n asesu cynnydd disgyblion mewn ieithoedd rhyngwladol, a sut caiff hyn ei ddefnyddio i lywio addysgu ac adrodd ar gynnydd disgyblion?

| | |
|---|---|
| **Yn dod i'r amlwg** | |
| **Yn datblygu** | |
| **Cryf** | |

Camau gweithredu posibl:
- *Datblygu ffordd syml o gofnodi cynnydd disgyblion*
- *Cynnwys dysgu ieithoedd rhyngwladol mewn sicrhau ansawdd*
- *Rhannu gwybodaeth am gynnydd gyda phartneriaid uwchradd yn y cyfnod pontio*

## Arweinyddiaeth Disgyblion

- Sut caiff disgyblion eu cynnwys mewn arwain a dathlu ieithoedd rhyngwladol ar draws yr ysgol?

| | |
|---|---|
| **Yn dod i'r amlwg** | |
| **Yn datblygu** | |
| **Cryf** | |

Camau gweithredu posibl:
- *Sefydlu cynllun llysgenhadon ieithoedd rhyngwladol*
- *Defnyddio llais y disgybl i lywio cynllunio*
- *Annog gweithgareddau allgyrsiol a gwasanaethau wedi'u harwain gan ddisgyblion*

## Partneriaethau a Phontio

- Pa bartneriaethau sy'n bodoli gydag ysgolion uwchradd lleol ac asiantaethau allanol i gefnogi datblygu'r cwricwlwm a phontio?

| | |
|---|---|
| **Yn dod i'r amlwg** | |
| **Yn datblygu** | |
| **Cryf** | |

Camau gweithredu posibl:
- *Cryfhau cydweithio â'r ysgol uwchradd leol*
- *Ymgysylltu â phartneriaid Dyfodol Byd-eang ac asiantaethau eraill i gryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer ieithoedd rhyngwladol*

## Y Camau Nesaf

-